Y Gêm Ymfudo

Ymwelwyr yr haf yw gwenoliaid, fel llawer o adar Prydain. Yn yr hydref maent yn ein gadael ac yn ymfudo i hinsawdd cynhesach De Affrica. Rhaid iddynt oresgyn llawer o beryglon ar y ffordd ac mae nifer helaeth yn methu â chyrraedd pen y daith hir.

Chwaraewch y gêm ymfudo.
Gall dau neu fwy gymryd rhan. Bydd arnoch angen **dîs** a **botwm lliw** i'w ddefnyddio fel marc. Mae pob chwaraewr yn taflu yn ei dro.

Sut i chwarae:

1 Chi ydy'r wennol ar fin cychwyn eich taith hydrefol. Rhaid aros am dywydd da felly taflwch 6 cyn cychwyn.
2 Wedi taflu 6, taflwch eto a symudwch ymlaen y nifer priodol o sgwariau. Mae pob sgwar yn cynrychioli tua 100 milltir o daith.
3 Dilynwch y cyfarwyddiadau yn y sgwariau y byddwch yn glanio ynddynt. Rhaid aros am eich tro nesaf a thaflu eto os glaniwch ar sgwar gwag. Os cewch eich "lladd" rhaid cychwyn eto fel aderyn "newydd."
4 Mae amodau arbennig pan fyddwch yn croesi'r môr. Os glaniwch yno, edrychwch yn y bocs priodol isod.
5 Yr enillydd yw'r chwaraewr cyntaf i gyrraedd Durban yn Ne Affrica. Da iawn chi!

Amodau arbennig

Taflwch y dîs eto a dilynwch y cyfarwyddiadau.

1 ***Eich dal a'ch bwyta gan hebog. Cychwynnwch eto***

2 ***Tywydd godidog. Cewch dro arall***

3 ***Gwynt cryf yn eich chwythu oddi ar eich trywydd cywir. Collwch 1 tro***

4 ***Eich dallu gan oleudy a'ch lladd. Cychwynnwch eto***

5 ***Bwydo da. Cewch dro ychwanegol***

6 ***Gwynt ffafriol. Bonws o 3 at eich sgôr nesaf***

Taith y wennol o Brydain i Dde Affrica.

Geirfa					
bwlch	.....	*pass*	gorsaf modrwyo	.....	*ringing station*
gwerddon	.....	*oasis*	gwylltir	.....	*bush*
sychder	.....	*drought*	trofannol	.....	*tropical*

Niwl yn eich arafu. Tynnu 1 o'ch sgôr nesaf		**MÔR UDD** (Y Sianel) Amodau arbennig		**CYCHWYN** Taflwch 6 i ddechrau.	
Cwmwl dros yr haul. Colli 1 tro nes ei fod yn clirio.					
Cewch eich saethu gan heliwr. Cychwynnwch eto.		Cewch hyd i fwlch hawdd trwy fynyddoedd y Pyrenee. Ymlaen 1 sgwâr.		**MÔR Y CANOLDIR** Amodau arbennig	
					Bwydo cyn croesi Mynydd yr Atlas. Colli 1 tro.
Bwydo da mewn gwerddon. Colli 1 tro.		Amodau da i hedfan yn syth. Symudwch ymlaen 4 sgwâr.		Aros am dywydd da i groesi'r Sahara. Taflwch 6 i symud ymlaen.	
Marw mewn storm dywod. Ewch yn ôl i'r dechrau i gychwyn eto.		Bwydo da ar bryfaid o gwmpas geifr nomadiaid. Ymlaen 2 sgwâr.			**Gwynt ffafriol.** Ymlaen 2 sgwâr.
Wedi blino ar ôl ehedeg dros y Sahel. Tynnu 1 oddi ar eich sgôr nesaf.		Sychder. Colli 1 tro tra'n chwilio am bwllyn i yfed ohono.		Gorffwys ar ôl croesi'r Sahara. Colli 1 tro a thynnu 1 oddi ar eich sgôr nesaf.	

Tân gwylltir yn Nigeria. Ewch yn ôl 2 sgwâr.	Bwydo da heb orfod glanio. Ymlaen 2 sgwâr.		Stormydd trofannol yn eich arafu ym Masn y Congo. Colli 1 tro.		Bwydo da. Colli 1 tro ac ychwanegu 2 at eich sgôr nesaf
					Cymylau yn eich rhwystro. Tynnu 1 o'ch sgôr nesaf.
	Eich erlid gan aderyn ysglyfaethus Yn ôl 3 sgwâr.	Tywydd braf a chlir. Ymlaen 2 sgwâr.		Heidiau o bryfaid hawdd eu dal. Ymlaen 2 sgwâr.	
Bwydo da yn Llyn Nakuru. Ymlaen 2 sgwâr.					
Hela pryfaid o gwmpas eliffantod. Ewch yn ôl 2 sgwâr.		Rhaeadr Mosi-oa-Tunya (Fictoria.) Gwynt croes yn eich arafu. Colli 1 tro.		Stormydd glaw trwm. Tynnu 1 o'ch sgôr nesaf.	
					Cael eich bwyta gan hebog. Cychwyn eto.
Cyrraedd Johannesburg a chael eich dal mewn gorsaf modrwyo. Ewch yn ôl 1 sgwâr.		Perygl mynd yn rhy bell. Arhoswch i daflu 6 i orffen.			
Cyrraedd Johannesburg a chael eich dal mewn gorsaf modrwyo. Ewch yn ôl 1 sgwâr.		**DURBAN** Wedi cyrraedd yn ddiogel o'r diwedd ar ôl ehedeg 6,000 milltir. **Llongyfarchiadau!**			